



Adroddiad Monitro Safonau Iaith
Prifysgol Aberystwyth
1 Awst 2018 to 31 Gorffennaf 2019

CYFLWYNIAD

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ddarostyngedig i Safonau'r Iaith Gymraeg ers 1 Ebrill 2018. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y cyfnod o 1 Awst 2018 hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol y sefydliad, sef 31 Gorffennaf 2019.

Bu'r gwaith o baratoi'r adroddiad monitro hwn, yn ogystal â gwaith bodloni Safonau'r Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd, o dan ofal staff Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ac arweiniad Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae Prifysgol Aberystwyth wedi parhau yn ei hymroddiad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac i annog ei gweithlu i ddefnyddio a datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg.

Fel rhan o'r ymrwymiad i rannu arfer da a hyrwyddo'r Gymraeg, cynhaliwyd **Gwobrau Gŵyl Dewi** i anrhydeddu chwe unigolyn am eu cyfraniad at y Gymraeg mewn seremoni arbennig yn yr Hen Goleg, nos Iau 14 Mawrth 2019

<https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/gwobraudewi/gyldewi2019/> .

Trefnwyd hefyd gyfres o ddigwyddiadau gan y Brifysgol yn ystod yr **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** ym Mae Caerdydd, Awst 2018 i rannu ymchwil, datblygiadau a chynlluniau'r Brifysgol gyda chynulleidfa ehangach

<https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2018/08/title-215505-cy.html> .

DATBLYGIADAU

Gwelwyd dechrau ar y prosiect £16.5 miliwn o **adnewyddu neuadd breswyl hanesyddol Pantycelyn**. Bydd y Neuadd yn cynnig darpariaeth wedi arlwyo gyda 200 o ystafelloedd gwely cyfoes, ensuite yn ogystal â gofodau cymdeithasol rhagorol er mwyn cynnig canolbwynt heb ei ail ar gyfer cymuned myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol. Bydd Neuadd Pantycelyn yn ail agor yn mis **Medi 2020**.

Datblygiad allweddol arall yn ystod y flwyddyn oedd cymeradwyo dwy ddogfen bolisi berthnasol gan Gyngor y Brifysgol ar 26 Mehefin 2019:

- **Is Strategaeth y Gymraeg a'i Diwylliant**
- **Polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg**

CYFATHREBU GOFYNION SAFONAU'R GYMRAEG

Parhau fu'r gwaith o gynnal cyflwyniadau cyffredinol i staff gan gynnwys cyflwyniad i Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn ystod y cyfnod.

Ychwanegwyd y canlynol at y rhestr o ganllawiau ar y wefan:

- Rhestr wirio ar gyfer Darparwyr Trydydd Parti
- Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Bu'r Brifysgol yn gweithredu safonau Cyflenwi Gwasanaeth gan geisio hefyd i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr, staff a'r cyhoedd o'r cyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Cydweithiwyd yn agos gyda chynrychiolwyr myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ymgyrch '**Mae Gen i Hawl**' Comisiynydd y Gymraeg.

Anogwyd myfyrwyr a'r cyhoedd i gyfathrebu gyda'r Brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r canlynol:

- Galwadau ffôn
- Llythyrau
- Dogfennau a chyhoeddiadau
- Gwefannau a chyfryngau Cymdeithasol
- Cyfarfodydd
- Gwasanaethau derbyn

Yn ystod y cyfnod hwn, cymeradwywyd penodiad **Cyfieithydd gydag arbenigedd fel cyfieithydd ar y pryd i fod yn aelod o dîm cyfieithu Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg**. Bydd y buddsoddiad hwn yn cryfhau'r gallu i ddarparu cyfieithu ar y pryd yn unol â'r Safonau ar gyfer gweithgareddau allanol a mewnol.

SAFONAU LLUNIO POLISI

Cyflwynwyd strwythurau academiaidd a phwyllgorau newydd ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2018/19. Mae'r strwythurau newydd yn cefnogi'r gallu i hyrwyddo'r Gymraeg ac i oruchwylio effaith datblygiadau polisi ar y Gymraeg yn y Brifysgol yn y meysydd academiaidd a gweinyddol.

SAFONAU GWEITHREDU

Mae Prifysgol Aberystwyth yn awyddus i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Lluniwyd polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn y sefydliad, sef '**Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth**'. Cymeradwywyd y polisi gan Gyngor y Brifysgol ar 26 Mehefin 2019. Un o dargedau'r polisi yw i weld cynnydd yng nghanran y staff gweinyddol sydd â Sgiliau Iaith Gymraeg uwch.

Hyfforddiant i Staff

Cynigiwyd y cyrsiau datblygu staff canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

- i) Cyflogaeth Foesegol ac Arferion Recriwtio
- ii) Cynllun Cyfraniad Effeithiol / Cyfnod Prawf
- iii) Rheoli Perfformiad Staff
- iv) Gweini Pwyllgorau ym Mhrifysgol Aberystwyth
- v) Cadeirio Cyfarfodydd
- vi) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (cwrs ar-lein)
- vii) Diogelwch Gwybodaeth (cwrs ar-lein)
- viii) Rhagfarn Ddiarwybod (cwrs ar-lein)
- ix) Paratoi cais ar gyfer Cymrawd Cyswllt, Cymrawd, Uwch Gymrawd neu Brif Gymrawd yr Academi Addysg Uwch
- x) Ysgrifennu Adfyfyriol
- xi) Ysgrifennu Canlyniadau Dysgu
- xii) Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid

Hyfforddiant Iaith - darparwyd y cyrsiau canlynol:

Croeso Cymraeg Gwaith – 31 wedi cofrestru ac wedi cwblhau o leiaf un sesiwn yn ystod y cyfnod adrodd.

Croeso Nôl – 7 wedi cofrestru ac wedi cwblhau o leiaf un sesiwn yn ystod y cyfnod adrodd.

Cymraeg Gwaith – 36 aelod o staff wedi mynychu'r dosbarthiadau, darparwyd cefnogaeth mentor hefyd ar gyfer pob dysgwr er mwyn eu cefnogi i ennyn mwy o hyder i ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle.

Dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned – Darpariaeth Cyngor Sir Ceredigion – 22 aelod o staff wedi mynychu'r cyrsiau.

Dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned – Darpariaeth Dysgu Cymraeg, Prifysgol Aberystwyth – 19 aelod o staff wedi mynychu'r cyrsiau.

Cwrs Haf 2018 – Mynychodd 4 aelod o staff y Cwrs Haf.

Tystysgrif sgiliau iaith – 2 aelod o staff wedi ennill y dystysgrif.

SAFONAU CADW COFNODION

Cwynion

Derbyniwyd 11 cwyn mewn perthynas â'r Safonau Iaith yn ystod y cyfnod adrodd. Daeth 3 cwyn drwy'r ffurflen ar-lein, 1 ar lafar, 5 drwy e-bost a 2 trwy law Comisiynydd y Gymraeg.

Cedwir cofnod a manylion cwynion a dderbynnir gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a darperir adroddiad cryno yn gyson i'r Grŵp Gweithredol ac i Gyngor y Brifysgol.

Polisi

Yn ystod y cyfnod adrodd parhawyd i ddefnyddio erfyn Aseiad Effaith Iaith Gymraeg mewn perthynas â phenderfyniadau polisi. Mewn rhai achosion cyfunwyd y dull hwn gydag erfyn Aseiad Effaith Cyfartaleddau. Derbyniwyd cais gwybodaeth drwy law swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am dystiolaeth ynglŷn â Safon 157 a oedd yn perthyn i ran o'r cyfnod adrodd. Lluniwyd ymateb i'r cais hwn o fewn i'r amserlen a gytunwyd.

Sgiliau Iaith Staff

Ym mis Gorffennaf 2019 dadansoddwyd gwybodaeth am sgiliau iaith yr holl staff sydd â'u manylion wedi eu diweddarau. Defnyddir Fframwaith cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer y lefelau.

	Sgiliau Llafar	Sgiliau Ysgrifenedig
C2	153	136
C1	60	51
B2	211	197
B1	183	137
A2	51	49
A1	299	244
A0	681	812
Anhysbys	211	223
Cyfanswm staff	1849	1849

Hyfforddiant Staff

a. Recriwtio a chyfweld

Cynhaliwyd 2 gwrs hyfforddiant yn ymwneud â recriwtio a chyfweld i staff yn ystod y cyfnod adrodd. Darparwyd sesiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Teitl y Cwrs	Nifer a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg	Canran o'r staff a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg
Gweithdy Hyder Cyfweliad	4	15%

Gweithdy Ceisiadau Effeithiol	5	14%
-------------------------------	---	-----

b. Rheoli Perfformiad

Teitl y Cwrs	Nifer a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg	Canran o'r staff a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg
Cynllun Cyfraniad Effeithiol / Cyfnod Prawf	0	0%
Rheoli Perfformiad Staff	1	9%

c. Ymsefydlu

Teitl y Cwrs	Nifer a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg	Canran o'r staff a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg
Cynllun Ymsefydlu	0	0%

Ch. Delio â'r Cyhoedd

Ni chafwyd cyrsiau ar y pwnc hwn.

d. Iechyd a Diogelwch

Teitl y Cwrs	Nifer a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg	Canran o'r staff a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg
Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch	10	11%
Hyfforddiant Iechyd a diogelwch a gweithio ar eich pen eich hun	(Gweler yr eglurhad)	Hyfforddiant dwyieithog ar gyfer Staff Darpariaeth Dysgu Cymraeg a Dysgu Gydol Oes. 12 wedi mynychu (6 ohonynt yn staff Darpariaeth Dysgu Cymraeg)
Gweithio ar eich pen eich hun	0	0%
Asesu risg yn y gweithle	0	0%

Codi a Chario	0	0%
Cwrs Swyddog Tân	0	0%
Cyflwyniad i CoSHH	0	0%
Defnyddio ysgol yn ddiogel	0	0%
Ymwybyddiaeth asbestos	0	0%
Gweithio'n ddiogel IOSH	0	0%
Cymorth cyntaf brys yn y gweithle	0	0%
Cymorth cyntaf yn y gweithle	0	0%
Rhoi gwybod am ddigwyddiad	0	0%

Swyddi

Yn ystod y cyfnod adrodd, dosbarthwyd swydd newydd a swydd wag fel a ganlyn:

Sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi	Nifer
a. Swyddi â sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	67
b. Swyddi yn gofyn am ddysgu'r Gymraeg (os nad yw'r ymgeisydd yn medru Cymraeg yn barod)	61
c. Swyddi â sgiliau Cymraeg (ar bob lefel) yn ddymunol	152
Ch. Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	90

Camau Datblygu:

Bydd y Brifysgol yn parhau i gynnal rhaglen hyfforddi i gefnogi a chynorthwyo staff i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Bydd hefyd yn datblygu rhaglenni i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i Diwylliant ac o'r Safonau Iaith Gymraeg.

Ionawr 2020